

---

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 20 EBRILL 2021

---

### Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Griffith, Nia Jeffreys, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas, Ioan Thoamas, Catrin Wager a Cemlyn Williams.

### Hefyd yn bresennol-

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Cynorthwyol Adran Gyllid - Refeniw a Risg) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Dafydd Gibbard (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo) a Hedd Tomos (Rheolwr Cyflenwad Tai).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.  
Derbyniwyd ymddiheuriad gan Cyng. Dyfrig Siencyn.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIUYD AR 30 MAWRTH 2021

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2021 fel rhai cywir.

## 6. SICRHAU FOD Y GRANT CYMORTH TAI YN ARWAIN AT Y GEFNOGAETH

## **ORAU POSIB I'R DIGARTREF YNG NGWYNEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago

### **PENDERFYNIAD**

- a. Cefnogwyd blaenoriaethu'r defnydd o'r Grant Cymorth Tai fel yr amlinellwyd ym mharagraff 36 o'r adroddiad.
- b. Cefnogwyd yr egwyddor i barhau i gydweithio gyda darparwyr allanol er mwyn cynnig gwasanaethau cefnogol arbenigol ychwanegol i'r hyn y gellir ei ddarparu'n fewnol.
- c. Nodwyd y risg ynghlwm i'r grant refeniw yn y dyfodol (fel pob grant refeniw arall) a'r mesur lliniaru a nodwyd ym mharagraff 39 o'r adroddiad hwn.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Cabinet wedi bod yn amlygu nad yw'r ddwy Lywodraeth wedi bod yn gwneud digon i dacio'r problemau tai sydd i'w gweld yn y sir. Amlygwyd y camau mae'r Cyngor wedi ei wneud i dacio'r broblem tai megis adroddiad am ail dai o fewn y sir, edrych ar y maes twristiaeth ac adfywio cymunedau. Pwysleisiwyd mai un o flaenoriaethau'r Adran Tai ac Eiddo yw tacio digartrefedd, gan ychwanegu fod rhan fawr o'r Cynllun Gweithredu Tai yn edrych ar y mater.

Ymhelaethwyd fod penderfyniad heddiw yn amlinellu cynlluniau'r adran i ddefnyddio arian Grant Cymorth Tai er mwyn tacio digartrefedd.

Ychwanegodd Pennaeth yr Adran Tai ac Eiddo fod niferoedd digartrefedd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Mynegwyd yn ystod y blynyddoedd cynnar o gynnydd yn nigartrefedd fod y Cyngor wedi bod yn ymateb yn araf ac wedi methu a chreu cynllun hir dymor. Bellach, nodwyd fod cynllun hir dymor yn ei le ac amlinellwyd y cynllun.

Pwysleisiwyd dros y flwyddyn ddiwethaf fod cynnydd o 26% wedi bod yn y niferoedd sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref, cynnydd o 71% dros bum mlynedd. Amlygwyd ei bod yn gyfnod o argyfwng ac nad yw'r ffordd bresennol o weithio yn ddigonol. Mynegwyd fod y Grant Cymorth Tai am gynorthwyo'r adran i symud ymlaen gyda cham 2 a 3 o'r cynllun sef i adeiladu unedau tai dros dro i'r digartref ac i gynyddu'r staff cefnogol i'r unigolion.

Nodwyd yn 2019 fod y Llywodraeth wedi rhagrybuddio y byddant yn edrych ar leihau'r grant hwn. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddigartrefedd yn cael ei amlygu yn ystod cyfnod covid-19, bu i ddyfodol y grant newid yn llwyr. Mynegwyd fod dyraniad ychwanegol o £1.6m ac o ganlyniad i hyn y bydd modd i'r Adran fynd yn syth i adeiladu 50 o unedau tai dros dro. Ategwyd y bydd yr arian yn ogystal yn galluogi'r Cyngor i ddyblu'r tîm cefnogaeth i unigolion digartref i dderbyn cefnogaeth emosiynol ynghyd a sgiliau bywyd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Croesawyd yr adroddiad gan nodi'r angen am gefnogaeth ar gyfer y digartref. Tynnwyd sylw at ddigartrefedd cudd.
- Pwysleisiwyd yr angen i wneud gwaith ataliol gan holi os oedd modd ddefnyddio'r arian grant ar gyfer y gwaith hwn. Nodwyd fod gwaith ymyrraeth gynnar yn rhan o'r annatod o gynnig cefnogaeth fel bod modd cefnogi'r unigolion i ddal gafael eu llety yn ogystal.
- Diolchwyd am y cynllun hirdymor ynghyd â chynyddu capasiti o fewn yr adran i wneud y gwaith sydd ei angen i gefnogi'r unigolion.
- Mynegwyd ei bod yn dda cael newyddion da i gefnogi unigolion a bod yn rhagweithiol wrth symud ymlaen.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 1.30 y.h.

---

**CADEIRYDD**